Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? Darllenwch ef yn eich porwr.

Rhifyn 330 (Cymru) – 21 Medi 2022

Adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022 yng Nghymru

Mae'r Comisiwn Etholiadol heddiw (Dydd Mercher 21 Medi) wedi cyhoeddi adroddiad ar etholiadau mis Mai 2022 yng Nghymru. Gwnaethom ganfod, yn gyffredinol, bod pobl yn hyderus bod yr etholiadau hyn wedi'u cynnal yn llwyddiannus a'u bod yn fodlon iawn gyda'r broses o gofrestru i bleidleisio a bwrw eu pleidlais. Mae'r canfyddiadau hyn yn dystiolaeth o waith caled gweinyddwyr etholiadol.

Roedd y nifer o bobl a bleidleisiodd yn yr etholiadau hyn yn is nag mewn etholiadau cymharol blaenorol, ac yn isaf ymhlith pleidleiswyr o dan 35 mlwydd oed. Argymhellir addysg ac ymgysylltu pellach i gefnogi pleidleiswyr sydd newydd eu rhyddfreinio i ddeall a chyfranogi mewn etholiadau yng Nghymru.

Mae cyflwyniad hwyr deddfwriaeth sy'n gwneud newidiadau i'r rheolau ar gyfer cynnal yr etholiadau wedi arwain at heriau ychwanegol sylweddol i Swyddogion Canlyniadau a gweinyddwyr etholiadol. Mae'n rhaid i bob Llywodraeth berthnasol ystyried effaith newidiadau deddfwriaethol ar weinyddiaeth etholiadau, ac ymrwymo y bydd deddfwriaeth yn glir o leiaf chwe mis cyn ei bod yn ofynnol cydymffurfio â hi neu ei rhoi ar waith.

Mae'r adroddiad hefyd yn amlygu'r ffaith bod cyfran sylweddol o ymgeiswyr wedi dweud wrthym eu bod wedi profi rhyw fath o gamdriniaeth neu fygythiad. Mae dadl wleidyddol gadarn yn rhan o ddemocratiaeth iach, ond weithiau gall pethau fynd yn rhy bell ac arwain at fygythiadau a chamdriniaeth. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru, yr heddlu a'r gymuned etholiadol ehangach i wneud yn siŵr ein bod yn deall beth sy'n achosi i ymgeiswyr gael eu cam-drin a'u bygwth, a sicrhau bod mynd i'r afael â'r mater hwn yn fater brys.

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn a'n hargymhellion ar ein gwefan.

Y Comisiwn Etholiadol

Cynnwys

Adroddiad y Comisiwn Etholiadol ar etholiadau llywodraeth leol mis Mai 2022 yng Nghymru

Gwybodaeth am a chysylltiad i adroddiad y Comisiwn, a gyhoeddwyd heddiw (dydd Mercher 21 Medi).

Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau'r gorffennol o Fwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael yma. Gallwch hefyd danysgrifio i'r Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.

Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn yn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.

Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru Etholiadol newydd ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel sydd yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)

Mae adroddiadau ar wahân hefyd wedi'u cyhoeddi ar yr etholiadau yn Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddad-danysgrifio unrhyw bryd.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

www.comisiwnetholiadol.org.uk

© Y Comisiwn Etholiadol 2022